

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:	Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol
Lleoliad:	Cyfarfod Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	16 Medi 2024
Aelodau yn bresennol:	Yr Athro Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd) Dennis Matheson, TFA Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water Sarah Hetherington, CNC David Ball, AHDB Nichola Salter, CNC Dafydd Jarrett, NFU Cymru Elin Jenkins, UAC Sarah James, CLA Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru Einir Williams, Cyswllt Ffermio Creighton Harvey, CFF Matt Walters, Llywodraeth Cymru Michelle Griffiths, CNC Chris Thomas, CNC Jon Goldsworthy, CNC Cat Osborne, Llywodraeth Cymru Grace Bolton, HCC
Mynychwyr ychwanegol:	John Griffiths, Coleg Sir Gâr (Eitem 2) Neil Paton, Coleg Sir Gâr (Eitem 2) Alwyn Roberts, DCWW (Eitem 3) Mark Charlesworth, CNC (Eitem 4) Dave Jones, CNC (Eitem 4) Sian Williams, CNC Thomaz Andrade, CNC Guy Mawle, Grŵp Pysgodfeydd Lleol Brynbuga Sharon Ellwood, DCWW Jennifer Slater, United Utilities Alys Routley, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Stephen Cheung, Llywodraeth Cymru Inoka T. Manatunga, CNC Paul Edwards Dr Susannah Bolton
Ymddiheuriadau:	Chris Mills, Afonydd Cymru Fraser McAuley, CLA Gareth Parry, UAC Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp WLMF) bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nododd ymddiheuriadau. Trefnwyd y sesiwn ar y cyd hon ar gyfer aelodau Is-Grŵp WLMF, [Fforwm Pysgodfeydd Cymru \(WFF\)](#) a [Fforwm Rheoli Dŵr Cymru \(WWMF\)](#) oherwydd y diddordeb cyffredin yn y pynciau dan sylw.
2. *Sylwch fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben cadw'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.*
3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau agenda.
 - DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiadau o fuddiant eisoes ond dylent hefyd ddatgan os oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

Eitem 2. Cyflwyniad: Gwaredu Scab / Rhaglen Genedlaethol i Waredu'r Clafr yng Nghymru

4. Ymunodd John Griffiths a Dr Neil Patton, Coleg Sir Gâr â'r cyfarfod i roi trosolwg a diweddariad ar Brosiect Gwaredu Scab. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Coleg Sir Gâr i weithio ar waredu Clafr Defaid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu clafr defaid fel clefyd blaenoriaeth - mae'n fater lles anifeiliaid enfawr, yn effeithio ar gynhyrchiant ac ar ddelwedd ffermio yng Nghymru. Mae clafr defaid yn glefyd parasitig heintus sy'n effeithio ar ddefaid ac sy'n cael ei achosi gan y gwiddon *Psoroptes ovis*.
5. Sefydlwyd grŵp llywio'r diwydiant i gefnogi gwaith y prosiect. Cyfeiriodd John at rai o'r sefydliadau a'r partneriaid oedd yn rhan o'r grŵp llywio megis UAC, NFU Cymru, NSA, Afonydd Cymru a rhoddodd ddiolch yn arbennig i unigolion fel Frank Jones.
6. Esboniodd John fod graddfa clafr yng Nghymru yn anhysbys ar ddechrau'r prosiect. Roedd 4.5 miliwn o ddefaid yng Nghymru a oedd yn dyblu mewn niferoedd i 9 miliwn i bob pwrpas pan ar ôl i ŵyn gael eu geni ar ôl y Pasg. Er bod ŵyn yn cael eu pesgi a'u difa'n raddol, mae'r niferoedd yn y pen draw yn lleihau yn ôl i tua 4.5 miliwn erbyn y Nadolig.
7. Mae'r gwiddon yn gyffredin yng Nghymru ac mae stigma hirsefydlog wedi bod ymhlith ffermwyr o gael clafr defaid o fewn eu diadelloedd. Yn y gorffennol, byddai rhai ffermwyr wedi ceisio ei drin yn sydyn ac yn dawel yn hytrach na'i drin yn gywir.
8. Ar hyn o bryd, mae gan y diwydiant ddau ddull o drin clafr, un drwy drochi'r defaid mewn diazinon (dipio) a'r llall drwy chwistrellu'r defaid gyda chemegyn sy'n gallu lladd y gwiddon. Yn anffodus, mae lefel gynyddol o wrthwynebiad i'r dull y gellir ei chwistrellu (am wahanol resymau). Felly, mae prosiect Gwaredu Scab wedi defnyddio'r dull dipio'n

unig gan nad oeddent eisiau annog mwy o wrthwynebiad i drin clafr, ynghyd â thrin cyflyrau eraill mewn ystyr ehangach.

9. Mae cyfle wedi codi lle gallant annog y diwydiant i gamu ymlaen - mae mwy na 30 o drochwyr symudol ledled Cymru. Mae'r prosiect yn defnyddio trochwyr symudol yn unig a chontractwyr dipio symudol (ni chaniateir i ffermwyr unigol ddipio eu defaid eu hunain o fewn y prosiect). Mae hyn wedi bod yn allweddol i helpu i broffesiynoli'r diwydiant ac ymgymryd â hyfforddiant a gynhelir gan Gwaredu Scab. Disgrifiodd John bwysigrwydd defnyddio'r cemegyn ar y crynodiad cywir, trin y defaid am y cyfnod cywir, gwaredu'r cemegyn yn gywir a llawer o gamau eraill. Mae Gwaredu Scab wedi rhoi safon yn ei lle.
10. Eglurodd John fod pryder yn y flwyddyn gyntaf (23/24). Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu'r gyllideb, ond nid oeddent yn gwybod a fyddai ffermwyr yn cysylltu â nhw am help neu p'un a fyddai'r ffactor stigma yn gwrth-wneud y sefyllfa. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, llwyddodd y prosiect i ddipio dros hanner miliwn o ddefaid, a chafwyd cadarnhad bod pob un o'r diadelloedd wedi'u heintio â chlafr. Dywedodd Neil fod yn rhaid i ni gael milfeddyg i roi diagnosis - mae'n rhaid i'r milfeddyg ddod o hyd i widdon byw ar ddafad o fewn diadell (diadell fynegai). Yna, bydd cymdogion o amgylch y ddiadell yn cael gwybod bod clafr yn yr ardal. Bydd rhai ffermwyr yn dweud bod clafr ar eu ffermydd, ond bydd eraill nad ydynt yn fodlon cyfaddef. Ar ôl rhoi gwybod iddynt bod clafr yn yr ardal, byddant yn cael cynnig prawf am ddim, ac os canfyddir clafr, byddwn yn dipio pob un ohonynt. Nid ydym yn dipio'r un fferm fynegai yn unig, rydym ni'n dipio pob un ohonynt i lanhau'r cwm/dyffryn, mynydd, tir comin ac ati - er mwyn atal ailheintio. Ni fydd rhai ffermwyr defaid yn sylweddoli bod clafr yn bresennol ar ddechrau'r haint, ond ein nod yw atal y lledaeniad. Diadelloedd eraill fydd ffynhonnell yr haint, ac mae'r ffermydd hyn yn cael eu targedu/dylanwadu i weithredu. Yn anffodus, mae llawer iawn o resymau pam bod ffermwyr yn cael achosion o'r clafr, ond rydym yn gwneud ein gorau i weithio gyda nhw.
11. Dechreuodd y cyfnod dipio ym mis Medi 2024 ar gyfer y gaeaf hwn. Esboniodd John y senario, tymor a'r amseriad delfrydol ar gyfer dipio defaid - mae clafr yn gyflwr sy'n effeithio yn yr hydref/gaeaf fel arfer. Dechreuodd y cyfnod dipio ym mis Medi er mwyn i ni gyrraedd yr amser mwyaf cyfleus i drin y defaid wrth symud ymlaen. Mae hefyd yn eithaf da o ran y gyllideb gan fod llawer o wŷyn yn cael eu difa erbyn hyn ac nid oes angen eu trin. Y llynedd, fe wnaethom ni agor y cyfnod dipio yn ystod Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar ganol/diwedd mis Gorffennaf. Roedd amseriad y cyfnod hwnnw o fudd i ddiadelloedd llawr gwlad yng Nghymru gan eu bod yn gallu cael mynediad at y defaid bob diwrnod o'r flwyddyn. Yn anffodus, roedd yn hyn gwahaniaethu yn erbyn diadelloedd mynydd a oedd yn cael eu casglu ynghyd yn achlysurol yn unig. Felly mae'r prosiect yn canolbwyntio mwy ar y tir comin a'r tir uchel eleni gan na chawsant yr un cyfle y llynedd. Trafododd John yr heriau sy'n ymwneud â'r galw sy'n fwy na'r gyllideb. Soniodd John, pe bai ffermwyr yn cael eu defaid yn cael eu dipio y llynedd, na fyddant yn cael eu blaenoriaethu eleni, ond os oes cyllideb dros ben yn ddiweddarach yn ystod y tymor, mae'n bosibl y byddwn yn ailedrych ar y penderfyniad hwnnw. Er nad yw'n edrych yn debygol ar y lefel bresennol o alw.
12. Mae John a Neil yn credu'n gryf na ddylai Gwaredu Scab lygru unrhyw gyrsiau dŵr wrth geisio gwaredu clafr. Mae Dŵr Cymru a CNC yn rhan o'r grŵp llywio ac wedi bod yn eu cynghori ers y dechrau. Ceir ymrwymiad i gasglu samplau dŵr ar ffermydd sydd wedi cael eu trin fel rhan o'r rhaglen. Disgrifiodd John y broses fonitro a chasglu a phrofi samplau dŵr gan gynnwys profion a gynhaliwyd gan Frank Jones. Mae'r cynlluniau ar gyfer eleni yn cynnwys monitro a gweithio ymhellach gyda Dŵr Cymru a

CNC. Byddwn yn samplu 4 fferm, 4 gwaith – bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu a dysgu o ardal ehangach wrth symud ymlaen.

13. Yn ddelfrydol, dylech ddipio defaid ar ddiwrnod braf gyda rhagolygon sych am fwy na 2-3 diwrnod wedyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhagolygon fel yna'n aml yng Nghymru, felly mae'n bosibl y byddai achlysuron yn codi pan fyddem yn cael ein gorfodi i roi triniaeth o ganlyniad i gyflwr i defaid er bod posibilrwydd o law mân yn y rhagolygon a fyddai'n effeithio ar lefel y risg. Gallwn ymchwilio i hyn a gweld a yw hynny'n cael effaith ac yna dysgu a rhannu ein canfyddiadau.
14. Nododd Sian Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru fod John wedi sôn bod llawer i'w ddeall o hyd ynghylch maint a lledaeniad clafr yng Nghymru a gofynnodd a yw'n fwy cyffredin mewn rhai ardaloedd daearyddol. A oes manau poeth daearyddol ac a yw'n fwy cyffredin mewn rhai ardaloedd? Dywedodd Neil fod stigma hanesyddol ynglŷn â chlafr wedi bod yn broblem sylweddol o ran cael ffermwyr i ddweud a ydynt yn credu bod clafr ar eu fferm, ac maent wedi cael trafferth casglu unrhyw ddata realistig a pherthnasol ynglŷn ag os oes clafr yn bresennol. Gwnaed rhai astudiaethau gan gydweithwyr ym Mryste a chydweithwyr yn Coleg Milfeddygaeth Brenhinol sy'n awgrymu mai yn ardal Caer, Gogledd Cymru mae'r manau problemus. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod o gymorth mawr o ran gallu targedu gwaith. Mae'r data sydd gennym yn awgrymu bod faint o glafr sy'n bresennol yn gymesur â nifer y defaid mewn ardal ac mae hynny mor fanwl ac y gallwn fod ar hyn o bryd (e.e. po fwyaf yw niferoedd y defaid, y mwyaf tebygol y bydd clafr yn trosglwyddo o un ddiadell i un arall). Bu Neil yn trafod sefyllfaoedd sy'n helpu achosion o'r clafr i gyrraedd brig yn yr hydref megis arferion rheoli, casglu defaid, cadw'r defaid dan do gyda'i gilydd, gwlan hirach yn creu gwell amgylchedd i'r gwiddon ac ati.
15. Gofynnodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio am y broses o gael manylion cyswllt ar gyfer porwyr tiroedd comin a gofynnodd a allai Cyswllt Ffermio helpu i rannu gwybodaeth. Dywedodd John ei fod yn agored i bawb sy'n pori tir comin ac eglurodd y dull, sef 'pawb i mewn neu ddim o gwbl'. Mae risg hefyd y bydd y rhaglen yn mynd yn llawn. Gofynnodd Einir a oedd angen cysylltiadau arnynt o hyd ar gyfer ysgrifenyddion y Cymdeithasau Pori Tir Comin. Dywedodd John y byddai'n beth da petai Einir yn gallu anfon manylion ato.
16. Soniodd Sarah Hetherington, CNC fod gan Lywodraeth Cymru restr o'r Cymdeithasau Pori Tir Comin a'r manylion cyswllt. O ran y data o'r flwyddyn gyntaf, gofynnodd Sarah am y cyfraddau llwyddiant posibl o ran ailheintio ac a yw gwaredu clafr yn gyfan gwbl yn ymarferol. Dywedodd John fod yr hanner miliwn o ddefaid yn dod o ychydig dros 400 o ddiadelloedd. Rydym wedi ymdrechu i ffonio pob ffermwr y mae eu diadelloedd wedi cael eu trin drwy brosiect Gwaredu Scab oddeutu 6 mis ar ôl y driniaeth. Mae hon wedi bod yn rhaglen dreigl drwy gydol y gwanwyn eleni, a gofynnwyd i ffermwyr pa mor hapus oedden nhw gyda'r gwasanaeth a sut mae'r defaid (e.e., wnaethon nhw stopio cosi ar ôl triniaeth ac a ydyn nhw wedi aros yn glir). Mae wedi bod yn galonogol iawn gan fod canran uchel iawn o'r diadelloedd rydyn ni wedi'u trin wedi aros yn glir. Nid oedd llawer o ffermwyr wedi defnyddio trochwyr symudol o'r blaen ac roeddent yn gadarnhaol iawn am y profiad.
17. Dywedodd Creighton Harvey, CFF ei fod wedi cael ei galonogi gan yr hyn a ddywedwyd hyd yn hyn a gofynnodd ynghylch gwrthwynebiad y diwydiant i ddefnyddio trochwyr symudol. Dywedodd John ei fod yn ymwneud mwy ag amgylchiadau unigol gan fod amrywiaeth o ffermwyr o fewn y diwydiant Cymru, o ffermwyr ar raddfa fach i

fentrau masnachol. Soniodd John am ymarferoldeb a her economaidd ffermwyr yn cadw eu cyfleusterau dipio eu hunain (ee, mae'n annhebygol y bydd gan ffermwr ar raddfa fach eu cyfleuster dipio eu hunain ac felly mae'n fwy tebygol o ddefnyddio trochwr symudol). Cododd Creighton effaith bosibl pwysau gan gyfoedion a gofynnodd pa mor debygol yw ffermwyr defaid cyfagos i roi pwysau ar y rhai sydd wedi gwrthwynebu trochwyr yn ymweld â ffermydd. Dywedodd John fod y rhaglen yn anelu at ddod â'r mater i'r wyneb a lleihau'r stigma - mae sgysiaau cychwynnol yn allweddol. Mae hwn yn gynnig deniadol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid i ni fod yn gwbl ddiolchgar am eu cefnogaeth. Mae'n braf pan fo ffermwyr yn lleisio barn ac yn annog ei gilydd yn gadarnhaol i ymuno. Atgoffodd John y grŵp eu bod hefyd am ddefnyddio'r cyllid mewn ffordd effeithlon.

18. Gofynnodd Guy Mawle am y niferoedd dipio ar gyfer eleni. Dywedodd John fod y rhaglen yn cael ei chyfyngu gan y gyllideb. Fe allai mwy o ddefaid fod wedi cael eu dipio'r llynedd, ond roedd yn rhaid i ni roi'r gorau iddi oherwydd ymrwymadau cyllidebol. Bu John yn trafod costau gorbenion megis dipio symudol, y cemegyn, costau gwaredu ac ati. Gofynnodd Guy faint o ddipio defaid sy'n digwydd y tu hwnt i'r rhaglen. Dywedodd John fod llawer iawn o ddipio defaid yn digwydd o fewn y diwydiant. Mae'r prosiect wedi helpu'r diwydiant drwy drefnu diwrnodau DPP ac wedi addo na fyddem yn cymryd busnes ein gilydd. Mae John hefyd wedi trefnu i'r diwydiant fod yn rhan o drafodaethau gyda CNC, Dŵr Cymru, y gwneuthurwr cemegol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gofynnodd Guy ynglŷn â gwaredu dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio. Mae'r dip defaid a ddefnyddir fel rhan o brosiect Gwaredu Scab yn cael ei waredu trwy gyfleusterau trin gwastraff trwyddedig. Rydym wedi mynnu bod y rhai sy'n rhan o'r rhaglen yn gwneud hyn yn iawn - mae'n rhaid gwneud y cyfan i'r safon uchaf ac yn effeithlon. Mae ffermwyr yn cael storio hyd at 20,000 litr o ddip defaid wedi'i ddefnyddio am hyd at dri mis. Gall loriâu gymryd mwy na hynny, felly rydym wedi ceisio creu dull gweithredu cylchllaeth sy'n cynnwys grwpiau o drochwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gydlynu casgliadau dip defaid wedi'i ddefnyddio, gan leihau'r gost gyffredinol. Mae un o'r Swyddogion Prosiect wedi dod yn arbenigwr ac maen nhw wedi sefydlu grwpiau WhatsApp i'r trochwyr allu hysbysu'i gilydd yn gyflym o faint o ddip defaid maen nhw wedi'i ddefnyddio ac sydd angen ei waredu.
19. Cododd Sarah Jones DCWW rôl marchnadoedd lleol o ran clafr defaid, ail-heintio, bioddiogelwch ac ati. Gofynnodd Sarah a fu unrhyw ymgysylltiad â gyda marchnadoedd da byw i helpu ffermwyr. Dywedodd John fod rhywun o'r Gymdeithas Marchnadoedd Lleol ar y grŵp lluywio am yr union reswm hwnnw ac i raeadru negeseuon allweddol. Mae marchnadoedd yn ceisio darparu gwasanaeth i'w cymunedau gan hefyd geisio cynnal safonau uchel ac enw da. Fodd bynnag, mae'n anodd pan mae'r clafr mor gyffredin. Rydym wedi edrych ar hwyluso gwasanaeth lle byddai trochwr symudol yn mynd i un o'r marchnadoedd ar ei risg fasnachol ei hun i ddipio defaid wrth iddynt adael (defaid bridio neu ar gyfer eu cadw). Eglurodd John na fydddech eisiau i ddefaid gael eu dipio ar y ffordd i mewn oherwydd y byddai rhai ohonynt yn cael eu difa. Fodd bynnag, mae costau'n gysylltiedig â hyn, felly byddai angen diddordeb gan ffermwyr a sicrhau eu bod yn barod i dalu rhywfaint yn ychwanegol i ddipio eu defaid yn y fan a'r lle. Mae un cwmni dipio defaid symudol wedi gwneud hyn yn y de ddwyrain. Rydym hefyd wedi cytuno i roi gwaith iddo yn ddiweddarach yn y dydd fel y bydd wedi cael diwrnod hyfyw yn ariannol. Gobeithiwn y bydd hyn wedi dysgu ffermwyr am ffordd o leihau'r risg wrth fasnachu defaid. Mae'r marchnadoedd a'r arwethwyr hefyd yn allweddol i lwyddiant neu fethiant yr ymdrech hon.

20. Bu Dennis Matheson, TFA, yn trafod y nifer o heriau'n ymwneud â dipio defaid gan gynnwys y cyfnod byr, argaeledd trochwyr symudol, risg o ailheintio a'r tebygolrwydd o gael sawl diwrnod sych ar ôl ei gilydd. O ran y dull chwistrellu, mae'r crynodiad 2% yn eithaf anodd ei roi ar waelod y glust, ac mae angen i'r crynodiad 1% (nad yw'n cael ei argymell yn gyffredinol) gael ei chwistrellu ddwywaith, ond mae'n haws ei roi. Y broblem gyda chwistrellu yw ei bod yn debyg nad ydych yn chwistrellu'r holl ddefaid yn iawn, er mai un o'r manteision yw ei fod yn trin llyngyr hefyd. Yn ogystal, does dim diben i un ffermwr yn unig ddipio ei ddefaid, mae angen i gymdogion agos wneud hynny hefyd. Os nad oes neb o'ch cwrmpas yn dipio defaid, bydd y clafr yn parhau mewn cylchoedd o ailheintio gan ddod yn broblem barhaol. Gofynnodd Dennis a yw'r rhaglen wedi ystyried defaid gwyllt mewn coedwigoedd, gan fod llawer ohonynt heb unrhyw fanylion adnabod.
21. Awgrymodd Dennis fod ffynhonnell bosibl arall ar gyfer lledaenu clafr yn cynnwys contractwyr cneifio, sydd fwy na thebyg yn ymweld â hanner dwsin o ffermydd mewn diwrnod. Dywedodd John mai'r tywydd yw un o'n heriau mwyaf ni fel ffermwyr Cymru yn gyffredinol ac mae hefyd yn heriol i dimau dipio defaid.
22. Dywedodd John ei bod yn bwysig iawn gwirio drwy wneud ail gasgliad. Mae hefyd yn well dipio dafad unigol nad yw'n berchen i neb mewn gwirionedd os mae'n peryglu bywoliaeth ffermwyr eraill - gall fod yn broblem barhaol os na fydd yn cael sylw. Mae sgysiau gyda chominwyr a ffermwyr wedi bod yn allweddol ac yn gyffredinol, maent yn datblygu awydd i fod yn barod am yr her. Bu John yn trafod gwaredu defaid unigol sydd mewn ardaloedd anhygyrch i atal ailheintio defaid am byth.
23. O ran cneifwyr contract, eglurodd John fod un o Swyddogion Technegol y tîm wedi bod yn bencampwr cneifio defaid yn y Sioe Frenhinol. Mae'n uchel iawn ei barch o fewn y gymuned cneifio defaid yng Nghymru ac mae wedi bod yn gweithio gyda nhw i gynyddu eu gwybodaeth am atal clafr. Oherwydd gwaith tymhorol, mae llawer o gneifwyr hefyd yn dipio defaid. Trwy drafod clafr yn agored, mae Neil wedi eu haddysgu am gylch bywyd y gwiddon, hirhoedledd y gwesteigr a'r ffynonellau ailheintio posibl. Trwy gydol y cyfnod dysgu hwn, cafwyd cryn syndod ar adegau, er enghraifft pan ddysgwyd bod y gwiddon yn gallu byw ar eu hesgidiau am hyd at bythefnos. Rydym hefyd yn archwilio cyfleoedd nawdd lle gall pobl brynu dau neu dri set o ddeunydd cneifio - nid yw hynny'n ddrud o'i gymharu â chostau trin defaid. Os mae sefydliad yn dymuno nodd i'r cneifwyr i brynu ail neu drydydd pâr o esgidiau, trowsus neu festiau cneifio, mae'n debyg y byddai'n lleihau'r risg o ledaenu clafr, ailheintio defaid, ac yn y pen draw, lleihau'r risg bod diazinon yn cyrraedd afonydd.
24. Roedd Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru, yn cydnabod bod ei sefydliad wedi herio'n eithaf caled ar Diazinon dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd Gail i Neil a John am y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud gyda Frank Jones ac mae'n ymddangos ei fod wedi symud ymlaen. Bu Gail yn edrych yn ôl ar waith y rhaglen, ond awgrymodd mai dim ond cyfran fechan o'r gwaith dipio a wneir yng Nghymru yw hyn o hyd. Mae'n bwysig deall sut rydym yn symud ymlaen oherwydd bod pryderon o hyd ynghylch Diazinon mewn afonydd - beth arall allwn ni ei wneud? Mae angen i ni feddwl gyda'n gilydd am gyllid at y dyfodol, maint y cyllidebau a'r ffyrdd gorau o wario'r arian. Roedd Gail yn cofio bod bron i 100% o'r didadelloedd a gafodd eu trin o fewn y prosiect wedi'u heintio â chlafr, sy'n tanlinellu pryderon. Dywedodd Neil eu bod yn edrych ar ddaearyddiaeth diadelloedd, ond mae'n sampl â rhagfarn, nid yw'r prosiect yn samplu ar hap. Mae ffermwyr yn dod aton ni am eu bod nhw'n amau bod ganddyn nhw broblem. Mae gennym ni dipyn o waith i amddiffyn y prosiect rhag arbenigwyr allanol

gan nad yw ffermwyr yn gallu adnabod defaid penodol; ond maent yn gallu adnabod defaid sy'n cosi.

Pwynt Gweithredu Medi 01: Bronwen Martin, CNC i rannu manylion cyswllt ar gyfer John Griffiths a Dr Neil Patton, Coleg Sir Gâr.

Eitem 3. Cyflwyniad: Lleihau'r risg i ansawdd dŵr o ddip defaid gwastraff.

25. Ymunodd Alwyn Roberts â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar yr her o ddelio â chlafr defaid a'r cynhyrchion gwastraff sy'n gysylltiedig ag ef. Mae Dŵr Cymru wedi cymryd agwedd ragweithiol at yr her hon drwy weithio gyda NSA Cymru i sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid y Diwydiant Defaid i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag arferion dipio defaid a gwaredu'r gwastraff mewn dalgylchoedd dŵr yfed. Ar ben hynny, maent wedi comisiynu ymgynghorwyr amgylcheddol Ricardo AEA Ltd i gynnal ymchwil i'r opsiynau gwaredu presennol a sut y gellid datblygu llwybrau gwaredu yn y dyfodol yng Nghymru.
26. Dechreuodd Alwyn drwy ddarparu amlinelliad o'r Dull Rheoli Dalgylch Ffynhonnell Dŵr - y prif egwyddor yw atal yn hytrach na gwella. Y nod yw gweithio gydag eraill fel Gelli Aur a rhaglen Gwaredu Scab i sicrhau bod dŵr crai sy'n mynd i mewn i waith trin dŵr o ansawdd disgwylidig, cyson a hylaw fel bod angen llai o gemegau a llai o egni yn ystod y broses o drin y dŵr.
27. Rhoddodd Alwyn drosolwg lefel uchel o ddalgylchoedd dŵr yfed DCWW. Maent yn tynnu dŵr crai o 116 dalgylch unigol ar unrhyw un adeg, sy'n cwmpasu ardal o bron i 11,000 cilomedr sgwâr. Mae'r tiroedd o fewn y dalgylchoedd hyn yn cael eu defnyddio a'u rheoli mewn llawer o wahanol ffyrdd Gall amaethyddiaeth, coedwigaeth ac aneddiadau dynol i gyd bennu ansawdd dŵr crai yn mynd i mewn i waith triniaeth a'u gadael yn agored i risg. Mae daliadau tir DCWW yn gyfyngedig iawn, maent yn berchen ar lai na 5% o ddalgylchoedd dŵr yfed ac o'r 5% hwnnw, mae llawer ohonynt mewn prydles 999 mlynedd i CNC ar gyfer coedwigaeth. Ychydig iawn o reolaeth sydd gan DCWW dros sut mae'r tir hwnnw'n cael ei ddefnyddio a'i reoli. Felly, wrth i ni baratoi ar gyfer gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, mae'n hanfodol ein bod yn manteisio ar gyfleoedd cydweithredol i ddylanwadu ar bolisi rheoli tir ac alinio darpariaeth i helpu i leihau risgiau i ansawdd ein dŵr crai.
28. Er bod cynhwysion gweithredol dip defaid wedi cael eu defnyddio fel meddyginiaeth filfeddygol, maent yn cael eu hystyried dan ymbarél plaladdwyr ar gyfer y diwydiant dŵr. Yn y diwydiant dŵr, mae'r term plaladdwyr yn cwmpasu amrywiaeth o gynhyrchion (ee chwynladdwyr, pryfleiddiaid, ffwngladdwyr, molwsgladdwyr a rheoleiddwyr twf planhigion). Disgrifiodd Alwyn y broses drin ar gyfer plaladdwyr o fewn y diwydiant dŵr. Y safon dŵr yfed ar gyfer cyfanswm plaladdwyr yw 0.1 microgram y litr sy'n cyfateb i un ffeuen bob mewn 24,000,000 o duniau ffa pob. Mae'r her o ran ymdrin â phlaladdwyr ac ansawdd dŵr yn eithaf sylweddol.
29. Cyfeiriwyd at Diazinon yn lled aml dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r cynhwysion gweithredol mewn dip defaid sy'n cael ei ddefnyddio i drin ac atal clafr defaid. Amcangyfrif o raddfa'r broblem (gyda rhagdybiaeth chwyddedig iawn):
 - Pe bai pob dafad ac oen (9 miliwn) yn cael eu dipio unwaith y flwyddyn yng Nghymru, byddai hynny'n cynhyrchu tua 84 megalitr o ddip defaid wedi'i ddefnyddio bob blwyddyn. Byddai hynny'n cyfateb i geisio llenwi 33 o byllau nofio maint

Olympaidd. Er na fydd pob dafad ac oen yn cael eu dipio, hyd yn oed os ydych chi'n sôn am 50% neu hyd yn oed 25%, mae hynny'n dal i olygu bod angen gwaredu llawer o wastraff hylifol.

30. O brofiad ffermwyr a contractwyr, mae darpariaeth opsiynau amgen o ran gwaredu dip defaid heblaw am ei wasgaru ar y tir yn brin ac yn ddrud iawn. Mae angen mwy o ddipio defaid i geisio gostwng lefel clafr i lefelau y gellir eu rheoli. Fodd bynnag, mae trin mwy o anifeiliaid yn ei hanfod yn golygu bod diazinon yn risg sy'n dod i'r amlwg o safbwynt ansawdd dŵr yfed.
31. Crynodiad neu werth rhagnodedig (PCV) yw'r trothwy cyfreithiol ar gyfer lefelau halogiad derbynol mewn dŵr yfed ar gyfer plaladdwyr. Ers mis Ionawr 2022, dim ond tri achos o ormodiant ac un canfyddiad uwchben y PCV ar gyfer diazinon a gafwyd, a digwyddodd hynny yn gynharach eleni. Dangosodd Alwyn fap o DataMap Cymru o leoliadau Trwyddedau Amgylcheddol ar gyfer gwaredu dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio ar dir – ceir 988 o drwyddedau gwaredu CNC ar hyn o bryd. Mae hyn yn arwydd o ble y bydd gan ffermwyr neu contractwyr drwyddedau taenu ar dir i waredu eu gwastraff hylif neu ddip defaid a ddefnyddiwyd. O'r rhain, mae tua 1/3 ohonyn nhw mewn dalgylch dŵr yfed Dŵr Cymru. Mae DCWW yn gwerthfawrogi'r her o geisio mynd i'r afael â phroblem clafr defaid, maint y dasg a'r gofyniad i wneud llawer mwy o ddipio defaid ledled Cymru a'r angen i weithio gydag eraill i fynd i'r afael â'r risg sy'n dod i'r amlwg.
32. Mae DCWW wedi sefydlu Grŵp Diwydiant Clafr Defaid gydag NSA Cymru sydd wedi ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid a'u gwahodd i fynyachu cyfarfodydd a darparu cyflwyniadau a diweddariadau (e.e., CNC, Bimeda ac ati). Fel grŵp, rydym hefyd wedi darparu rhai ymatebion i ymgynghoriad CNC ar y Cynllun Codi Tâl Rheoleiddio Amgylcheddol. Mae DCWW hefyd yn cefnogi Gwaredu Scab drwy fonitro ansawdd dŵr, hyfforddiant ac ati.
33. Mae DCWW wedi comisiynu ymgynghorwyr amgylcheddol Ricardo AEA Ltd i wneud rhywfaint o ymchwil. Mae pryderon a rhwystrau sylweddol i'r diwydiant defaid wedi cael eu codi, yn enwedig nad oeddent yn gallu dod o hyd i atebion amgen i wasgaru ar dir. Mae contractwyr yn casglu dip gwastraff ac yn ei anfon ymlaen i safleoedd gwaredu, ond mae'r rhain yn brin ac yn ddrud iawn. Mae Ricardo wedi'i gomisiynu i wneud dadansoddiad bwlch i edrych ar yr union faterion hyn. Mae'r gwaith hwn wedi'i rannu'n fwriadol yn ddau gam, gyda cham un yn edrych ar y fframwaith llenyddiaeth a rheoleiddio, argaeledd presennol gwasanaethau casglu a gwaredu, meincnodi arferion rhyngwladol ac ymchwil ychwanegol a argymhellwyd gan y Grŵp Diwydiant Clafr Defaid. Mae cam dau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae'n fwy o ymarfer ymgysylltu gyda'r sector gwastraff hylif sy'n gwasanaethu busnesau Cymru. Mae'r grŵp diwydiant wedi penodi is-bwyllgor i weithio ochr yn ochr â Ricardo, ac maent wedi cyfarfod yn achlysurol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cam un, a bod hynny ynddo'i hun wedi creu sgysiau ychwanegol a phynciau ac elfennau ychwanegol i'w hystyried yng nghanam dau. Mae rhai o'r argymhellion Cam 1 yn cynnwys:
- Adolygu a diweddarau'r canllawiau perthnasol ar dipio defaid (e.e., Cod Diogelu Dŵr Daear CNC).
 - Adolygu a diweddarau'r hyfforddiant a'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r dystysgrif cymhwysedd i brynu dip.
 - Datblygu, hyrwyddo ac ehangu'r rhestr o contractwyr dipio defaid cymeradwy ymhellach ar Gymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol (NAAC).

- Datblygu a hyrwyddo gwasanaeth casglu SSD cynaliadwy a chost-effeithiol a sut i gymell safleoedd gwastraff a ganiateir i dderbyn neu gynyddu capasiti.
 - Canlyniadau Cyfnod 2
34. Gofynnodd Mark Charlesworth CNC sut y gallwn sicrhau bod yr argymhellion hynny'n cael eu datblygu. Dywedodd Alwyn fod y grŵp diwydiant a sefydlwyd gennym yn cynnwys cynrychiolaeth gan CNC, Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r undebau llafur, NAAC, HCC a Gelli Aur - gobeithiwn y gall y grŵp yma o sefydliadau allweddol ddod o hyd i atebion posibl. Bydd ffermwyr hefyd yn gorfod rhannu baich y gost, felly bydd yn ddiddorol gweld datblygiad modelau posib.
35. Gofynnodd Gail am PestSmart. Dywedodd Alwyn bod PestSmart ar gau ar hyn o bryd yn anffodus - cynhaliodd DCWW y cynllun gwaredu plaladdwyr (gyda chefnogaeth y llywodraeth) dros y blynyddoedd diwethaf i ffermwyr a thyfwyr gofrestru i waredu plaladdwyr a chemegau nas defnyddiwyd. Fodd bynnag, pan nad oes modd adnabod cemegyn, mae'n achosi her o ran cyhoeddi nodyn trosglwyddo gwastraff. Mae hyn wedi bod yn rhwystr i adnewyddu'r cynllun, ond mae trafodaethau'n parhau. Eglurodd Sarah Jones, DCWW nad oedd y cynllun yn casglu dip defaid gwastraff, roedd casgliadau'r cynllun ar gyfer plaladdwyr nas defnyddiwyd ac ati. Fodd bynnag, mae llawer o wersi wedi'u dysgu o'r cynllun hwnnw y gellir eu cyflwyno i drafodaethau ynghylch casglu a gwaredu dip defaid gwastraff.
36. Synnodd Gail weld y map o DataMap Cymru a gofynnodd a yw trwyddedau a roddir gan CNC yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r llwybr gwaredu. Dywedodd Dave Jones, CNC mai dim ond ar gyfer taenu ar dir y mae'r trwyddedau - mae gan CNC gofnodion o'r ffermydd a lle mae'r dip defaid yn cael ei daenu ar dir. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r trwyddedau hynny'n cael eu defnyddio neu eu defnyddio'n rheolaidd, nid oes unrhyw fecanwaith ar waith nes i ni gynnal ymweliad cydymffurfio ar gyfer unrhyw drwyddedau unigol (e.e. nid ydym yn gwybod pryd oedd y tro diwethaf iddi gael ei defnyddio). Nid yw rhai ffermydd yn defnyddio eu trwydded yn rheolaidd ac maent wedi dal gafael arni oherwydd bod y taliadau blynyddol yn weddol rhad. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ffigurau ynglŷn â faint sy'n cael ei daenu ar dir neu'n cael ei gludo i gyfleuster gwastraff. Awgrymodd Gail fod hwn yn faes sydd angen ei dacluso. Soniodd Alwyn fod llawer o gwestiynau yn cael eu gofyn pan fyddwch yn prynu'r cynnyrch (ee, faint o ddefaid sydd ganddynt) ond nid ydynt yn gofyn sut mae'n cael ei waredu - efallai bod hyn yn ffordd arall o gasglu data i ddeall faint sy'n cael ei waredu drwy drwyddedau taenu ar y tir a faint sy'n cael ei gludo i'w waredu gan contractiwr dipio ac ati.
37. Roedd Einir yn cofio mai un o'r argymhellion allweddol oedd datblygu a hyrwyddo gwasanaeth casglu. Yn seiliedig ar ei phrofiad ei hun, credai Einir y byddai hyn yn debygol o fod yn boblogaidd iawn gyda'r diwydiant. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn ariannu costau cwrs 'defnyddio dip defaid yn ddiogel' hyd at 80% a fyddai fel arfer yn costio oddeutu £260 am yr hyfforddiant a'r prawf. Bu Alwyn yn trafod pwysigrwydd addysg a hyfforddiant.
38. Soniodd Dennis am y cynnydd mewn ffioedd gan CNC. Dywedodd Dennis mai mantais arall i driniaeth Cydectin drwy frechlyn yw nad oes unrhyw ddŵr ffo pan mae'n bwrw glaw, ond mae'n gallu cael ei ysgarthu mewn gwastraff anifeiliaid. Cydectin yw'r unig ddull y gellir ei ddefnyddio ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oherwydd nad yw'n lladd chwilod y dom neu bryfed eraill. Gofynnodd Dennis a oes unrhyw astudiaethau wedi'u gwneud i weld a yw Cydectin mewn tail yn mynd i mewn i'r cwrs dŵr ac os ydyw, a yw'n niweidiol? Dywedodd Alwyn nad oedd yn ymwybodol, ond mae gan ei

gydweithwyr gwastraff raglen ymchwilio cemegol, ac maen nhw wedi edrych ar Cypomethane yn y gorffennol a rhywfaint o gysylltiadau posibl â marchnadoedd da byw fel llwybrau posibl. Soniodd Mark fod CNC yn gwneud rhywfaint o ddadansoddiad cemegol sbectrwem eang. Mewn rhai safleoedd, gallwn yn bendant edrych ar y gronfa ddata i weld a yw hyn wedi codi, ond mae'n bosibl na fydd yn rhan o'r gronfa ddata a ddefnyddir ar gyfer yr agwedd dadansoddi.

39. Dywedodd Elin Jenkins, FUW, fod costau trwydded i waredu dip defaid yn hurt yn anffodus, a'i fod yn rhwystr mawr i ffermydd teuluoedd llai. Gofynnodd Elin a oes digon o leoedd i waredu dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio. Os mai hwn fydd y llwybr gwaredu a ffefrir yn y dyfodol, mae angen sicrhau bod argaeledd a chapasiti cyfleusterau'n ddigonol. Holodd Elin beth oedd effaith cynydd yng nghostau trwydded o'i gymharu â phresenoldeb claf defaid yng Nghymru, ac a oes unrhyw gysylltiad gydag ansawdd dŵr. Dywedodd Elin ei bod yn galonogol gweld cymaint o drwyddedau ar fap Cymru a nododd mai dim ond un achos o lefelau uchel o gemegau a gafwyd yng Nglannau Dyfrdwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Eglurodd Alwyn fod gan bob un o ddalgyloedd dŵr yfed DCWW gynllun diogelwch dŵr yfed ac asesiad risg trylwyr, ond mae'n bosibl mai dim ond unwaith y mis y caiff y samplau hyn eu casglu, ac mae un canfyddiad yn un yn ormod, ond nid oes unrhyw offeryn ar gyfer monitro ansawdd dŵr yn barhaus ar gyfer plaladdwyr. Felly, mae'n bosibl y byddem wedi canfod mwy o achosion pe bai'r capasiti neu'r dechnoleg gennym ni i fonitro. Safon ansawdd dŵr yw 0.1 microgram, ond mae safon Ansawdd yr Amgylchedd yn uwch (0.01 microgram) - dyna lle mae gwaith monitro CNC wedi canfod mwy o risgiau EQS. O ran capasiti'r diwydiant i drin a chasglu dip gwastraff, soniodd Alwyn fod hwnnw'n gwestiwn y gofynnwyd i Ricardo ymchwilio iddo - mae'n bwysig iawn deall capasiti'r diwydiant, a oes cynlluniau i leihau, a pha heriau eraill sy'n bresennol. Soniodd Alwyn am y codau gwastraff i'w gwaredu - cofnodir dip defaid fel 'plaladdwyr amaethyddol', felly gallai fod cynhyrchion eraill yn cael eu gwaredu gan ddefnyddio'r un cod. Mae tipyn o waith i'w wneud i geisio cadarnhau yn union faint o ddip gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu.

40. Diolchodd Rhys i Alwyn am ei gyflwyniad a'r drafodaeth ddiddorol.

Pwynt Gweithredu Medi 02: Bronwen Martin, CNC i rannu copi o gyflwyniad a manylion cyswllt Alwyn Roberts CNC.

Eitem 4. Diweddariad CNC: Dip Defaid

41. Ymunodd Dr Mark Charlesworth, CNC â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am rywfaint o'r gwaith y mae CNC yn ei wneud, megis yr Ymchwiliad Diazinon. Dechreuodd Mark drwy ddarparu cefndir i statws cemegol a oedd yn cynnwys rhoi dosbarthiad ar gyfer ystod o gemegau yn 2021, fel rhan o Gynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMPs). Roedd adnoddau monitro o dan bwysau sylweddol, ac roeddem yn gallu defnyddio gwaith monitro a wnaed o dan y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan DCWW. Cafodd tua 100 o gyrff dŵr eu dosbarthu ar gyfer ystod eang o blaladdwyr gwahanol. Atgoffodd Mark y grŵp bod y safonau plaladdwyr sy'n cael eu gosod o dan y Cynllun Rheoli Basn Afon yn wahanol i'r rhai a osodir o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

42. Bu Mark yn trafod y rhestr o gemegau a oedd yn nodi methiannau, gan gynnwys diazinon. Fe wnaethom ni ganfod 8 corff dŵr a fethodd o ganlyniad i ddiazinon, ac ambell i fethiant o ran cypermethrin, ond mae hynny'n ddosbarthiad rhagofalus i raddau helaeth, ac mae'n cael ei ystyried ymhellach. Dangosodd Mark fap a oedd yn dangos lleoliad y methiannau hyn. Ers hynny, rydym wedi gwneud llawer o waith samplu a

dadansoddi data pellach. Mae llawer o'r data'n cyfeirio at safleoedd risg uchel megis Powys a Gogledd Cymru. Gwnaed y dadansoddiad yn erbyn y cyfartaledd blynyddol (ee, crynodiad cyfartalog dros gyfnod y samplau). Ers hynny, rydym wedi cynnal rhaglen fonitro 22/23, ac mae gennym tua 70 o safleoedd tebyg fel ein bod yn eu monitro yn y flwyddyn ariannol hon.

43. Mae pryder sylweddol am effaith diazinon ar ddŵr wyneb a'n dŵr daear ac rydym yn cymryd nifer o gamau i leihau'r risg honno. Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaeth Milfeddygol yn cymeradwyo defnyddio pryfleiddiaid mewn amaethyddiaeth. Rôl CNC yw rheoleiddio'r dip gwastraff a gynhyrchir, ac yn benodol, lle mae dip gwastraff yn cael ei waredu ar dir. Nid ydym yn rheoleiddio'r gweithgaredd dipio ei hun, dim ond y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu.
44. Dywedodd Mark fod CNC wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y galw am drwyddedau newydd i waredu gwastraff dip defaid i dir ac rydym yn adolygu ein dull rheoleiddio ac yn asesu a ddylem barhau i gyhoeddi trwyddedau newydd i waredu gwastraff dip defaid i dir yng Nghymru.
45. Mae CNC wedi gwneud nifer o benderfyniadau sy'n helpu i hwyluso'r broses o waredu dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio i gyfleuster gwastraff. Mae CNC wedi cyhoeddi penderfyniad rheoleiddio sy'n sicrhau y gellir storio a swmpio dip defaid gan ganiatáu a hwyluso'r dull casglu cylch llaeth (a drafodwyd yn gynharach). Mae CNC wedi cael dylanwad cryf ar y Rhaglen Dileu Clafr Defaid. Mae'r prosiect wedi bod yn dda iawn wrth geisio lleihau unrhyw risg i'r amgylchedd ac rydym wrth ein bodd eu bod wedi ystyried ein cynnig bod pob dip defaid fel rhan o'r rhaglen honno yn cael ei waredu i gyfleuster gwastraff. Mae hynny ynddo'i hun wedi bod o fudd mawr i ddatblygu'r diwylliant o waredu dip defaid wedi'i ddefnyddio mewn cyfleuster gwastraff, yn hytrach na'i waredu ar dir. Mae CNC hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau ymwybyddiaeth gwahanol.
46. Mae CNC hefyd wedi bod yn ceisio gwella'r sylfaen dystiolaeth, er enghraifft, ble i dargedu ymweliadau monitro a chydymffurfio pellach. Dangosodd Mark gyfres o fapiau a graffiau sy'n dangos dadansoddiad GIS parhaus i edrych ar leoliadau trwyddedau, lleoliadau fferm defaid, asesiadau infertebratau a physgod, data diazinon, data dŵr daear ac ati. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd ag ymchwil sy'n bodoli eisoes (e.e., Prifysgol Caerdydd). Cydnabu Mark hefyd yr angen i gael gwell gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch defnyddio dip defaid, y llwybrau gwaredu, lle mae'n cael ei daenu ar dir a'r cyfeintiau dan sylw. Trafododd Mark beryglon gwaredu dip defaid yn ogystal â defaid yn mynd i afonydd ar ôl cael eu dipio. Soniodd Mark am raglen gydweithredol newydd lle defnyddiwyd cyllid i ddadansoddi pedwar safle. Bydd gwaith monitro yn cael ei wneud mewn sawl ardal i fyny ac i lawr yr afon i adeiladu ar rywfaint o'r gwaith monitro sydd eisoes wedi'i wneud.
47. I grynhoi, mae Diazinon yn peri risg i'r amgylchedd dŵr trwy ddipio defaid a thaenu'r dip wedi'i ddefnyddio ar y tir. Bwriad CNC yn y pen draw yw symud i ffwrdd o waredu dip defaid gwastraff ar dir - byddai hyn yn gyson â'r ffordd y mae sylweddau hylifol peryglus eraill wedi cael eu gwaredu (roedd gwaredu dip defaid drwy daenu ar dir yn esemptiad dan y rheoliadau gwastraff yn y lle cyntaf). Mae hyn yn gofyn am ddull cydweithredol aml-sector ac mae pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir. Ceir brwdfrydedd i weithio ar ddatrys y mater gan hefyd sicrhau ein bod yn gallu parhau i fynd i'r afael â chlafr. Rydym yn agored i newid ac yn barod i ystyried argymhellion pellachi geisio cefnogi'r arfer o gludo dip defaid i ffwrdd i gyfleuster gwastraff.

48. Nododd Dennis fod dipio defaid yn orfodol ac yn cael ei oruchwylio gan Swyddog Safonau Masnach hyd at oddeutu 25-30 mlynedd yn ôl. Daeth hyn i ben pan gafwyd tystiolaeth fod y dip yn niweidiol i bobl. Disgrifiodd Dennis y cyfleusterau dipio hanesyddol ar ei fferm, lle byddai'r dip yn cael ei wagio i afonydd a nentydd lleol ar ôl ei ddefnyddio. Gofynnodd Dennis a oes unrhyw waith wedi cael ei wneud i dynnu diazinon o'r gymysgedd. Roedd Mark yn cofio bod Alwyn wedi cyfeirio at allu niwtraleiddio'r diazinon yn y dip ond nad oedd wedi edrych i mewn i hyn ei hun. Dywedodd Alwyn fod Bimeda yn ymchwilio i hyn. Awgrymodd Alwyn y gallai fod cyfle i wahodd Bimeda i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith hwnnw.
49. Dywedodd Dafydd Jarrett, NFU Cymru bod y diwydiant amaethyddol yn cymryd hyn o ddifrif ac nad yw ffermwyr yn dymuno llygru'r amgylchedd. Ar y cyfan, profwyd dros y blynyddoedd nad yw ei waredu'n ddiogel ar dir yn broblem amgylcheddol os byddwch yn ei wneud yn gywir, a bydd NFU Cymru yn bendant eisiau cadw'r opsiwn hwnnw. Mae'n debygol y bydd llai o bobl yn ymgeisio am drwyddedau oherwydd y gost, ond dylai barhau i fod yn opsiwn. Nid ydym yn erbyn cynlluniau casglu a byddem yn cefnogi'r dull hwnnw ond mae'n rhaid iddo fod yn gost-effeithiol. Efallai bod cyfle i leihau'r risg hyd yn oed ymhellach trwy ddefnyddio cynhyrchion i niwtraleiddio'r sylwedd. Soniodd Dafydd am rai dulliau eraill megis ychwanegu calch at y dip sydd wedi'i ddefnyddio, gan awgrymu bod hynny'n lleihau llygredd posibl yn sylweddol wrth ei daenu ar dir. Rydym yn dymuno gweithio ar y cyd i edrych ar atebion, ond nid ydym eisiau colli'r gallu i daenu dip wedi'i ddefnyddio ar dir yn gyfan gwbl. Roedd Dafydd yn cofio gwaith dadansoddi GIS mae CNC yn ei wneud ac yn croesawu'r gwaith pellach. Cytunodd Mark ei bod yn bwysig edrych ar gyfleoedd posib.
50. Dywedodd Dave Jones, CNC ei fod wedi cyfarfod â Bimeda yn y gorffennol, ac wedi trafod eu cynnyrch ensym a'r gobeithion o ddod ag ef yn ôl i'r farchnad. Gall CNC edrych arno unwaith y bydd cynnyrch hyfyw ar waith i weld sut y gallai hynny newid y dull rheoleiddio. Gallai gwir fantais hynny fod wrth agor y llwybrau gwaredu hynny ymhellach. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r dip fynd i gyfleusterau penodol oherwydd codau gwastraff penodol, ond os caiff ei drin gan ddefnyddio cynnyrch arall, gallai hynny agor cyfleoedd o ran lle y gellir ei waredu. Gobeithio y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gostau gwaredu. O ran taenu ar y tir, mae nifer y trwyddedau wedi bod yn gymharol sefydlog er blynyddoedd lawer ac roedd nifer y trwyddedau newydd yn cael ei wrthbwysu gyda nifer y rhai a oedd yn rhoi gorau i'w trwyddedau. Dip defaid yw'r unig wastraff hylif sy'n cael ei waredu ar dir nad oes ganddo unrhyw fuddion amaethyddol. Rydym yn gweithio gyda grwpiau amrywiol i archwilio dewisiadau amgen hyfyw.
51. Dywedodd Gail fod Afonydd Cymru wedi ei chael yn anodd i ymgysylltu gyda nifer o sefydliadau mewn perthynas â diazinon felly mae'n braf iawn clywed bod llawer o waith yn cael ei wneud. Fodd bynnag, mae llawer mwy y gallwn ei wneud ar y cyd. Rhannodd Gail ei gwerthfawrogiad i Thomaz Andrade, CNC sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith mapio GIS. Awgrymodd Gail fod gan lawer o sefydliadau eraill ddata infertebratau yn eu systemau eu hunain nad ydynt efallai yn hygyrch iawn ar hyn o bryd - efallai bod cyfle i ni weld a allwn ni dynnu hynny at ei gilydd ar gyfer mwy o'r dalgylchoedd wedi'u targedu lle mae'n amlwg bod problem (e.e., Ymddiriedolaeth Afonydd). Ym amlwg, mae cydweithio'n digwydd ar ffermydd, ac efallai byddai modd archwilio ardaloedd daearyddol penodol. Rydyn ni'n tueddu i feddwl am broblemau yn unigol. Mae Afonydd Cymru wedi hwyluso gwaith ar ffermydd yn y gorffennol, ac awgrymodd y gallant hefyd helpu gyda'r gwaith diazinon. Gofynnodd Gail i Mark gysylltu â hi i drafod yr awgrym

hwn. Dywedodd Mark ein bod wedi trafod cyfuno ymweliadau/gweithio gyda'n tîm cydymffurfio amaethyddol. Fodd bynnag, mae'r tîm cydymffurfiaeth amaethyddol yn canolbwyntio'n sylweddol ar edrych ar risgiau maetholion yn hytrach na dip defaid. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ymchwilio i hyn. Dim ond drwy aildefnyddio data DCWW y cawsom syniad o raddfa'r mater hwn, felly rydym yn awyddus iawn i ddefnyddio data allanol (lle bynnag y mae'n bodloni'r safonau angenrheidiol) i'n hysbysu'n well.

52. Dywedodd Thomaz Andrade, CNC bod data allanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dŵr, ond bod y data fertebratau i gyd yn fewnol. Byddai gennym ddiddordeb mewn gweld mwy o ddata allanol i weld a ellir ei ddefnyddio i gynyddu sylw. O ran ychwanegu calch at ddip defaid wedi'i ddefnyddio, bu Thomaz yn edrych ar dystiolaeth o waith a wnaed 20-25 mlynedd yn ôl gan Asiantaeth yr Amgylchedd, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth gadarnhaol gref iawn. Yn ogystal, ceir problemau eraill fel y ffaith ei fod yn dal i gael ei ystyried yn wastraff peryglus hyd yn oed ar ôl ei gyfuno gyda rhywbeth arall. Mae'n faes eithaf cymhleth, yn enwedig o ran y ddeddfwriaeth a rheoliadau gwaredu gwastraff (e.e. math newydd o gymysgedd cemegol cyfunol ar gyfer gwaredu).
53. Dywedodd Elin fod dip defaid wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd lawer ar wahanol gryfderau. Nododd Elin fod y data yng nghyflwyniad Mark o tua phum mlynedd yn ôl yn unig, a gofynnodd am ddata hanesyddol a p'un a oes unrhyw dueddiadau wedi ymddangos. O ran storio a chludo'r dip defaid wedi'i ddefnyddio, dywedodd Elin ei bod hi'n bwysig iawn nodi bod damweiniau'n gallu digwydd a bod risgiau'n gysylltiedig gyda'r opsiynau hyn. Dywedodd Elin ei bod yn bwysig deall ac edrych ar y ffactorau eraill sy'n cyfrannu at yr amgylchedd gyda ffocws cyfartal. Gofynnodd Elin am yr ardaloedd problemus, ac a oes unrhyw waith dilynol wedi cael ei wneud gyda deiliaid trwyddedau i'w haddysgu ac i'w roi ar drywydd deall y problemau (e.e. bu'n bwrw glaw 2-3 diwrnod ar ôl dipio ac ati). Nododd Elin na ddylem baentio Cymru gyfan gyda'r un brws fel y gwelwyd gyda rheoliadau eraill - byddai dull wedi'i dargedu'n cefnogi'r diwydiant. Dywedodd Mark o ran yr ymweliadau cydymffurfio ag ardaloedd lle mae problemau, sy'n rhywbeth yr ydym yn edrych arno, ac mae'r ardaloedd lleol eisoes yn gwneud hynny. O ran data hanesyddol, roedd cypermethrin yn cael ei ddefnyddio yn eithaf cyffredin mewn dip defaid. Nodwyd hyn drwy lawer o waith Frank Jones ac roedd yn risg sylweddol i'r amgylchedd, felly cafodd ei wahardd fel dip defaid (mae'n dal i fod yn bosibl ei ddefnyddio fel triniaeth i'w arllwys). Ers hynny bu newid o'r defnydd o cypermethrin i diazinon. Mae'r data a ddangoswyd yn gynharach yn mynd yn ôl hyd at 6 mlynedd neu fwy o ran data dŵr, ond os oes data yn mynd yn ôl ymhellach, gallwn edrych ar hynny yn bendant. O ran trin yr holl bwysau'n gyfartal, dim ond un cemegyn yw diazinon sy'n achosi risg i'r amgylchedd dŵr. Rydym yn trin pob cemegyn yr un fath ac mae rhaglenni gwaith enfawr eraill sy'n ceisio lleihau pwysau o ganlyniad i gemegau, maetholion a phwysau ffisegol. Pryd bynnag y ceir methiant o ran cemegyn, mae'n ofynnol i ni yn ôl deddfwriaeth i roi mesurau ar waith ac ymchwilio
54. Diolchodd Rhys i Mark am y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol. Mae llawer o gynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud mewn perthynas â dip defaid a diazinon ac mae wedi bod yn ddiddorol clywed am rywfaint o'r gwaith parhaus gan wahanol sefydliadau. Mae hefyd yn wych clywed am yr ymdrechion cydweithio.

Pwynt Gweithredu Medi 03: Bronwen Martin, CNC i rannu copi o gyflwyniad Mark Charlesworth CNC a manylion cyswllt.

55. Gadawodd aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a Fforwm Pysgodfeydd Cymru y cyfarfod.

Eitem 5. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd

56. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru fod hwn yn gyfle i'r grŵp gwrdd â Dr Susannah Bolton, y Cadeirydd annibynnol newydd sy'n goruchwyllo proses adolygu 4 blynedd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru).

57. Soniodd Susannah fod cynlluniau i gael eitem fwy sylweddol ar yr adolygiad pedair blynedd yng nghyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Rhoddodd Susannah drosolwg byr o'i gyrfa broffesiynol.

58. Eglurodd Susannah ei hagwedd tuag at yr adolygiad, a bydd yn edrych arno o safbwynt ymchwilio, yn enwedig mewn perthynas â deall tystiolaeth bresennol, cyfyngiadau a chyfleoedd yn ogystal â deall sefyllfa a safbwyntiau rhanddeiliaid. Mae'n rhyddhad gwybod bod y grŵp hwn yn bodoli ac wedi bod yn gweithio ar ddeall y rheoliadau dros y pedair blynedd diwethaf. Un o'r heriau mwyaf yw'r amserlen fer ar gyfer yr adolygiad - mae angen ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2025.

59. Soniodd Susannah am y canlynol ynghylch y Cylch Gorchwyl:

- Effeithiolrwydd y rheoliadau – cymryd dealltwriaeth eang o'r hyn y mae 'effeithiolrwydd' yn ei olygu mewn gwirionedd, o ran llygredd dŵr, ond hefyd effeithiolrwydd y defnydd a pha mor ddefnyddiol y maent wedi bod wrth ysgogi newid.
- Effaith – yn ehangach, mewn perthynas â Dyletswydd Rheoli Tir Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf Amaethyddiaeth, ond hefyd yn edrych ar Genedlaethau'r Dyfodol a rhwymedigaethau statudol a rhyngwladol amgylcheddol.
- Adolygu'r mesurau amgen - mae wedi bod yn ddiddorol iawn darllen a deall y rheini a'r gwaith sydd eisoes wedi mynd rhagddo i feddwl am ddewisiadau amgen.
- Y ffordd y mae'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn eistedd ochr yn ochr â rheoliadau amgylcheddol ehangach a'r amgylchedd rheoleiddio y mae'n gweithredu ynddo a dealltwriaeth o'r cysylltiadau hynny a'r cyfaddawdau posibl.

60. Soniodd Dennis fod yr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi ffurfio yn 2017, a'n bod wedi cwrdd fwy neu lai unwaith y mis ers hynny. Mynegodd Dennis bryderon ynghylch llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Dywedodd Dennis fod y llythyr yn cyfeirio at grŵp y Sefydliad Materion Cymreig. Mae grwpiau newydd yn cael eu ffurfio gydag ychydig iawn o gyfeiriad at y gwaith helaeth y mae'r Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi'i wneud, sydd i gyd yn cael ei gyhoeddi gyda chofnodion gwych - ni ddylai fod y cyswllt cyntaf. Dywedodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru fod y llythyr wedi'i ysgrifennu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol mewn perthynas â'r uwchgynadleddau a gafodd eu cynnull yn wreiddiol yn ôl yn 2022. Ceir ymwybyddiaeth o waith y grŵp hwn a'i rôl yn benodol. Roedd y llythyr hwnnw'n ymwneud â dyfodol yr uwchgynadleddau hynny, cyfathrebu,

cynaliadwyedd yr uwchgynadleddau yn eu dyluniad presennol a sut y gallent symud ymlaen.

61. Dywedodd Creighton ei fod yn cynrychioli Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, yn Is-gadeirydd Afonydd Cymru ac yn aelod o Cyswllt Amgylchedd Cymru, sy'n grŵp o gyrff anllywodraethol amgylcheddol Cymru a chenedlaethol. Gofynnodd Creighton sut y gall grwpiau amrywiol gyfathrebu â Susannah wrth symud ymlaen a rhoi eu mewnbwn ar y trafodaethau. Dywedodd Susannah y byddai'n awyddus i geisio cwrdd â chymaint o randdeiliaid allweddol â phosibl, ac mae hwn yn fforwm gwerthfawr iawn, er efallai nad yw pob un yn gysylltiedig. Bydd yn bwysig gwneud y defnydd gorau o'r grŵp hwn i gydgasglu a chydlynu. Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y rhaglen ymgysylltu - bydd angen i ni fod yn rhesymol o ystyried yr amserlenni.
62. Cadarnhaodd Rhys ei fod yn hapus i Susannah ddefnyddio'r grŵp hwn wrth symud ymlaen, yn enwedig o ystyried yr amserlen gyfyngedig ar gyfer y gwaith hwn.

Eitem 6. Adolygiad o'r cofnodion a chymau gweithredu

63. Gan fod y cyfarfod wedi mynd dros amser yn sylweddol, cytunwyd y gellid ymdrin â'r camau gweithredu a'r cofnodion blaenorol sy'n weddill trwy ohebiaeth a gall aelodau roi'r wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost.

Pwynt Gweithredu Medi 04: Y grŵp i adolygu cofnodion cyfarfod mis Mehefin a darparu unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau i WLMF.subgroup@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk .

Pwynt Gweithredu Medi 05: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu rhestr o gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni i'w hadolygu gan y grŵp a darparu diweddariadau mewn ymateb.

Eitem 7. Unrhyw fater arall

64. Gofynnodd Creighton am gynnydd gyda'r Adroddiad Cryno CoAPR ar gyfer Llywodraeth Cymru a oedd yn mynd i gael ei rannu gyda'r grŵp hwn. Dywedodd Nichola Salter, CNC fod CNC wedi diwygio'r adroddiad yn dilyn rhywfaint o eglurhad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad bellach gydag Uwch Reolwyr CNC ac yn mynd drwy'r broses gymeradwyo fewnol. Dywedodd Nichola y dylai fod ar gael cyn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref.
65. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 21 Hydref 2024.
66. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.